

FORTHEFULLTEAM
FELUNTÎM



Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

NIFEROEDD NYRSIO

2021

Trosolwg
o'r gweithlu
nyrsio yng
Nghymru

CYNNWYS

	Ynglŷn â'r adroddiad hwn	3
	Argymhellion	4
Adran 1	Beth yw gofal nyrsio diogel ac effeithiol?	5
Adran 2	Faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cael eu cyflogi gan GIG Cymru?	7
Adran 3	A oes digon o nyrsys a staff nyrsio yn cael eu cyflogi gan GIG Cymru?	9
	Swyddi Nyrsio Gwag	9
	Gweithio goramser	10
	Nyrsio Asiantaeth a Nyrsio Cronfa	11
	Cadw Nyrsys yn y GIG	12
Adran 4	Faint o nyrsys a staff nyrsio sy'n cael eu cyflogi yn y sector annibynnol?	14
	Nyrsio practis	14
	Nyrsio cartref gofal	15
	Nyrsio rhyngwladol a mudo	17
	Cadw staff nyrsio mewn cartrefi gofal	18
Adran 5	COVID-19 a'r gweithlu nyrsio	19
	Ysbryd	19
	Y rhaglen frechu	20
	Atal a rheoli heintiau	20
	COVID-19 a staff cartrefi gofal	21
Adran 6	Addysg nyrsio cyn-gofrestru	22
	Sut mae addysg cyn-gofrestru yn cael ei chomisiynu?	23
Adran 7	Addysg ôl-gofrestru a chamu ymlaen mewn gyrfa	24
	Uwch-ymarferwyr nyrsio	24
	Nyrsys arbenigol	24
	Nyrsys ymgynghorol	25
	Nyrsys atal a rheoli heintiau	26
	Nyrsys Ardal	27

YNGLŶN Â'R ADRODDIAD HWN

Caiff yr adroddiad hwn ei lunio yn flynyddol gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN Cymru). Mae'n cynnig trosolwg ystadegol o gryfderau ac agweddau agored i niwed y gweithlu nyrsio yng Nghymru.

Y ddwy brif ffynhonnell o wybodaeth am weithlu nyrsio'r GIG yng Nghymru yw Llywodraeth Cymru, drwy StatsCymru, a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Cyhoeddwyd data diweddaraf Llywodraeth Cymru ar weithlu nyrsio'r GIG ym mis Awst 2021 ac maent yn cyfeirio at ddata o ddiwedd mis Mawrth 2021.

Y ddwy brif ffynhonnell o wybodaeth am y gweithlu nyrsio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru yw Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Cyhoeddwyd data diweddaraf Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Ionawr 2021.

Cyhoeddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y rhifyn diweddaraf o'i arolwg cyflogaeth yn 2019. Cafwyd 965 o ymatebion gan aelodau yng Nghymru.

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term "staff nyrsio" yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae "nyrsys" yn cyfeirio yn benodol at nyrsys cofrestredig. Mae rhifau wedi'u talgrynnu i'r cyfanrif agosaf ac fe'u dangosir ar sail Cyfwerth ag Amser Llawn.

Cysylltwch â Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk am ragor o wybodaeth.

 RCNWales
  @RCNWales
  rcn_wales

ARGYMHELLION

Mae nyrsio yn broffesiwn hynod fedrus a thosturiol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y gweithlu presennol, boed mewn ysbytai, yn y gymuned, neu mewn cartrefi gofal, o dan bwysau aruthrol oherwydd prinder yn y gweithlu. Mae nyrsys yn gadael y proffesiwn ac nid oes digon yn cael eu recriwtio i lenwi'r bylchau.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) geisio sicrhau parhad gofal diogel o ansawdd uchel yng Nghymru. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn argymhell y canlynol:

- 1 Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi data ar swyddi nyrsys cofrestredig gwag i wella gwaith cynllunio'r gweithlu ar draws bob sector.
- 2 Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu cynlluniau adfer yn sgil COVID-19 gan gydnabod yr angen am staff nyrsio ychwanegol ar gyfer y rhaglen frechu.
- 3 Dylai Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac AaGIC ddatblygu strategaeth cadw nyrsys genedlaethol y GIG ar frys i gadw nyrsys yn gweithio yn GIG Cymru.
- 4 Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl yn y tymor seneddol hwn, i ddiogelu gofal cleifion a gweithio tuag at safonau statudol cyfartal ym mhob amgylchedd clinigol.
- 5 Mae'n rhaid i AaGIC sicrhau bod y broses gomisiynu ar gyfer addysg nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru yn dryloyw ac yn cymryd tystiolaeth ystyrlon gan randdeiliaid i sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y niferoedd a'r sgiliau a gomisiynir.
- 6 Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo AaGIC i lunio strategaeth i gomisiynu a datblygu nyrsio ôl-gofrestru i sicrhau bod gan Gymru y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ofalu am y cyhoedd.
- 7 Dylai Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) lansio rhaglen genedlaethol i godi proffil nyrsio mewn cartrefi gofal a chysoni telerau ac amodau cyflogaeth rhwng y sectorau iechyd a gofal i sicrhau bod gweithlu ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Adran 1 **Beth yw gofal nyrsio diogel ac effeithiol?**

Lle ceir niferoedd is o nyrsys, mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cleifion hyd at 26% yn fwy tebygol o farw yn gyffredinol a 29% yn fwy tebygol o farw yn dilyn arhosiad cymhleth yn yr ysbyty. Hefyd, mae nyrsys sy'n gweithio mewn meysydd lle ceir staffio gwael 71% yn fwy tebygol o ddioddef blinder llethol ac anfodlonrwydd yn eu swyddi na nyrsys ar wardiau sydd wedi'u staffio yn fwy ffafriol.¹

Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran diogelwch cleifion. Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 oedd y gyntaf o'i math yn Ewrop.

Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Dyma ddarpariaethau allweddol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016:

- Adran 25A** yn neilltuo cyfrifoldeb cyffredinol i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddarparu, ym mhob lleoliad, staff digonol i roi amser i'r nyrsys ofalu am gleifion gyda chydymdeimlad.
- Adran 25B** yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd i gyfrifo a chymryd camau rhesymol i gynnal lefelau staff nyrsio ar bob ward feddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion ac, o fis Hydref 2021, wardiau pediatrig. Mae hefyd yn ofynnol i fyrddau iechyd hysbysu cleifion am y lefel staff nyrsio.
- Adran 25C** yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull penodol i gyfrifo'r lefel staff nyrsio ar bob ward feddygol, llawfeddygol a phediatrig aciwt i oedolion.
- Adran 25D** yn ymwneud â chwmpas canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o ran Adrannau 25B a 25C
- Adran 25E** yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd adrodd ar eu cydymffurfiad o ran cynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward llawfeddygol a meddygol aciwt i oedolion.

A yw'n gweithio? Ydy! Canfu adroddiad RCN Cymru o 2019, *Gweithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Cynnydd a Her*, bod nifer y nyrsys cofrestredig wedi cynyddu ar bob ward lle'r oedd gan fyrddau iechyd rwymedigaeth gyfreithiol i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio o dan Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

¹Rafferty, A. M., Clarke, S. P., Coles, J., Ball, J., James, P., McKee, M., ac Aiken, L. H. (2007). *Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: cross-sectional analysis of survey data and discharge records. International journal of nursing studies*, 44(2), 175-182. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.ijnurstu.2006.08.003/>

A yw'n bosibl ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016? Ydy! Sefydlwyd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan ar ôl pasio Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i oruchwylio dyluniad a darpariaeth broffesiynol yr ymestyniad i Adran 25B. Sefydlwyd ffrydiau gwaith ar gyfer wardiau pediatrig, lleoliadau cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl. Mae Adran 25B eisoes wedi cael ei hymestyn i wardiau pediatrig, tra bod y ddwy ffrwd waith olaf bron wedi cwblhau'r offerynnau a'r dulliau sydd eu hangen i'w hymestyn.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

Y GYNGHRAIR GOFAL DIOGEL AC EFFEITHIOL

Ym mis Mehefin 2021, ysgrifennodd **16 o sefydliadau** at y Prif Weinidog i annog y Llywodraeth i sicrhau staff nyrsio diogel ac ehangu Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl a lleoliadau cymunedol. Roedd y sefydliadau yn cynnwys:

- Ymddiriedolaethau Cymunedol y Fenni
- Age Cymru
- Cymuned y Bledren a'r Coluddyn
- Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr
- Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru
- Gofalwyr Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyswllt Conwy
- Epilepsy Action
- Anabledd Dysgu Cymru
- Mencap Cymru
- Mind
- Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Coleg Brenhinol y Meddygon
- Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Tŷ Hapus

ARGYMHELLIAD


Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i nyrsio cymunedol a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl yn y tymor seneddol hwn, i ddiogelu gofal cleifion a gweithio tuag at safonau statudol cyfartal ym mhob amgylchedd clinigol.

Adran 2 Faint o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd sy’n cael eu cyflogi gan GIG Cymru?

Mae StatsCymru yn cyhoeddi gwybodaeth flynyddol am nifer y nyrsys a staff nyrsio a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru. Hyd at ac yn cynnwys 2018, cyhoeddwyd yr wybodaeth hon yn flynyddol, yn gywir hyd at bob mis Medi. Ym mis Rhagfyr 2018, dechreuodd StatsCymru gyhoeddi’r data bob tri mis. I sicrhau cysondeb, daw’r data yn ffigur 1 yn ymwneud â 2019 a 2020 o gyhoeddiadau tri misol mis Medi. Roedd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu o fis Mawrth 2021.

Mae’r term “staff nyrsio” yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd, tra bod “nyrs” yn cyfeirio at nyrsys cofrestredig yn unig.

Ffigur 1 Niferoedd nyrsio, Cyfwerth ag Amser Llawn (StatsCymru)



Mae data yn ymwneud â 2020 yn cynnwys staff ar gcontractau byrdymor neu gyfnod penodol. Mae’r rhain yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, myfyrwyr, a staff sydd wedi ymddeol a ddychwelodd i gynorthwyo’r gweithlu yn ystod pandemig COVID-19, gan gyfrannu at y cynnydd sydyn i staff nyrsio a nyrsys cofrestredig yn 2020. Mae hyn yn dangos bodolaeth cronfa o sgiliau nyrsio y tu allan i’r GIG sy’n deillio o dueddiad cryf a chynyddol dros flynyddoedd lawer o nyrsys a staff nyrsio yn gadael y GIG ar gyfer gwell telerau ac amodau naill ai mewn gwaith asiantaeth nyrsio neu waith nad yw’n waith nyrsio flynyddoedd lawer cyn oedran ymddeol. Mae’r grŵp staff hwn yn debygol o adael y GIG eto yn 2022.

Tan 2020, roedd nifer y staff nyrsio a nyrsys cofrestredig yn sefydlog ar y cyfan gyda rhyw fymryn o gynydd i niferoedd y gweithwyr cymorth gofal iechyd o 2015 ymlaen. Nid yw hyn yn adlewyrchu angen y boblogaeth.

Mae’r term “gweithiwr cymorth gofal iechyd” yn cwmpasu amrywiaeth eang o swyddogaethau gan gynnwys staff arlwyyo, gweinyddol, a chlerigol yn ogystal â’r rhai mewn swyddi cynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol. Mewn

gwirionedd, nid yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol, fel y gallai pobl sy'n gwneud yr un gwaith a swyddogaeth gael eu hadnabod gan wahanol deitlau: rhai enghreifftiau yn unig yw cynorthwydd gofal iechyd, cynorthwydd gofal, gweithiwr cymorth, cynorthwydd nyrsio, a chynorthwydd ffisiotherapi.

Yn y papur hwn, mae "gweithiwr cymorth gofal iechyd" yn cyfeirio yn benodol at y gweithwyr cymorth hynny sy'n gweithio ochr yn ochr â nyrsys i ddarparu gofal clinigol uniongyrchol mewn ysbytai, lleoliadau cymunedol a chartrefi gofal.

Gan fod swyddi nyrsys cofrestredig gwag wedi cynyddu, mae llawer o fyrdau iechyd wedi cynyddu nifer y staff cymorth nyrsio i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â staffio isel. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cymryd lle nyrsys cofrestredig. Mae'r swyddogaethau niferus a gyflawnir gan weithwyr cymorth gofal iechyd yn rhan o sbectrwm amrywiol maes nyrsio, ond ni ddylid ystyried cynyddu niferoedd y staff cymorth fel opsiwn yn hytrach na rhoi sylw ystyrlon i'r gyfradd swyddi nyrsys cofrestredig gwag. Dylai nyrsys cofrestredig fod mewn cymhareb o 60:40 â gweithwyr cymorth gofal iechyd ar gyfer gofal cleifion.

Beth bynnag fo'u cymwysterau, mae holl aelodau'r tîm nyrsio yn cymryd cyfrifoldeb am weledigaeth gyffredin, sef darparu gofal o ansawdd. Lansiodd y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru* yn 2006. Cytunwyd ar fframwaith gyrfa wedi'i ddiweddarau ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cefnogi nyrsio a'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd, *Datblygu Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd*, yn 2015.² Diben y fframweithiau hyn yw darparu dull llywodraethu i hysbysu datblygiad sgiliau a gyrfaoedd y gweithlu gweithwyr cymorth gofal iechyd yng Nghymru. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cefnogi'r fframwaith ac yn annog byrddau iechyd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn briodol.

Ar hyn o bryd, prin yw'r cyfleoedd y mae GIG Cymru yn eu cynnig i weithwyr cymorth gofal iechyd symud ymlaen a dod yn nyrsys cofrestredig trwy gwblhau gradd nyrsio ran-amser gan barhau i weithio fel gweithiwr cymorth gofal iechyd. Dylid ehangu hwn i fod yn gynllun cenedlaethol sy'n agored i'r gweithlu gweithwyr cymorth gofal iechyd presennol, ac yn ehangach i bawb sy'n dymuno cyflawni gradd nyrsio tra'u bod yn gweithio ac yn ennill cyflog. Mae prentisiaethau yn gwredu potensial y gweithlu i'r eithaf ac yn caniatáu i'r prentis ymgysylltu ag aelodau staff profiadol a all rannu sgiliau a gwybodaeth. Dylai Cymru ymchwilio i ffyrdd o ehangu mynediad at y proffesiwn nyrsio trwy ddull cenedlaethol o ymdrin â phrentisiaethau, gan gynnig mynediad uniongyrchol at y model hwn i unigolion ymgeisio.

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol o'r farn bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gwneud gwaith medrus a werthfawrogir yn fawr gan gleifion. Dylai eu swyddogaeth gael ei chefnogi â'r gydnabyddiaeth o gymwyseddau a phrofiad. Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd sicrhau bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gallu ymgymryd ag addysg bellach, gan gynnwys prentisiaethau nyrsio.

² GIG Cymru. (2015). *Datblygu Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd: Fframwaith Sgiliau a Gyrfa GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n cynorthwyo Nyrsio a'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd*. Ar gael yn: <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1178/HCSW%20Career%20Framework%20Nursing%20and%20Allied%20Health%20Professions.pdf>

Adran 3 **A oes digon o nyrsys a staff nyrsio yn cael eu cyflogi gan GIG Cymru?**

Yn anffodus, nid yw cwmpasu angen nyrsio gwirioneddol poblogaeth Cymru erioed wedi cael ei ystyried yn rheidrydd gan GIG Cymru, AaGIC, na Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae “cynllunio'r gweithlu” wedi golygu Byrddau Iechyd yn dweud wrth AaGIC bob blwyddyn faint o nyrsys newydd y gallant eu fforddio, ac AaGIC yn comisiynu niferoedd myfyrwyr nyrsio i gyfateb a hynny. Yn hanesyddol, gadawyd byrddau iechyd i benderfynu a ydynt yn dymuno, neu'n gallu fforddio, datblygu sgiliau neu gymwysterau nyrsio arbenigol fel gofal newyddenedigol. Mae hyn yn golygu wedyn nad yw gwasanaethau nyrsio ar gyfer pobl Cymru wedi cael eu cynllunio yn strategol mewn ymateb i angen, ond yn hytrach wedi cael eu cynnig neu eu tynnu yn ôl yn fympwyol.

Bu cynnydd i'r llwyth gwaith nyrsio yn ystod y degawd diwethaf gan fod staff nyrsio bellach yn gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio â dibyniaeth a chydafiacheddau cynyddol. Mae cyfradd prosesu cleifion yn yr ysbyty wedi cynyddu yn sydyn, ac felly hefyd defnydd gwelyau. Bu cynnydd sylweddol hefyd i nifer y bobl sy'n derbyn gofal yn y gymuned.

Mae angen cynnydd sylweddol i nifer y staff nyrsio i sicrhau'r ddarpariaeth o ofal cleifion o ansawdd uchel. Yn syml, mae'n cymryd mwy o staff nyrsio â lefel uwch o wybodaeth a sgiliau i ofalu am rywun sydd wedi torri ei glun os yw hefyd yn gorfforol eiddil, yn byw gyda dementia, diabetes, cyflwr y galon, a salwch anadlu. Hyd yn oed yn fwy felly os yw'r unigolyn hwn yn derbyn gofal gartref, ar ei ben ei hun, neu mewn llety gwael neu anaddas.

I ddeall faint o nyrsys a staff nyrsio sydd eu hangen yn y GIG, dylid ystyried dangosyddion o angen y boblogaeth a phwysau ar y gweithlu fel cyfraddau swyddi gwag, gwariant asiantaeth, a phwysau'r gweithlu.

Swyddi Nyrsio Gwag

Mae RCN Cymru yn amcangyfrif bod nifer y swyddi nyrsio gwag yn GIG Cymru wedi cynyddu i 1,719 o leiaf yn 2021, o 1,612 yn 2020.

Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar ddata swyddi gwag a ganfuwyd ym mhapurau byrddau iechyd. Mae'r data yn ymwneud â mis Mai 2021 yn bennaf, ond ceir anghysondebau. Mae data Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyfeirio at swyddi nyrsio a bydwreigiaeth gwag ar Fand 5 yr Agenda ar gyfer Newid yn unig, tra bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cyhoeddi data swyddi nyrsio cofrestredig gwag o ddau ysbyty yn unig (Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg). Mae data ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyfeirio at fis Rhagfyr 2019. Hefyd, mae'r amcangyfrif yn cymryd i ystyriaeth swyddi gwag a hysbysebwyd yn gyhoeddus yn unig.

Mae hyn yn dangos pa mor anodd yw hi i ddarganfod y gyfradd swyddi nyrsio gwag yng Nghymru a'r effaith sylweddol y mae swyddi gwag yn ei chael ar ofal cleifion drwy'r pwysau dilynol ar ein nyrsys yn y GIG.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

Faint o swyddi nyrsio cofrestredig gwag sydd yn GIG Cymru?

Mae RCN Cymru yn amcangyfrif bod o leiaf **1,719 o swyddi nyrsio cofrestredig gwag** yn GIG Cymru

GWYBODAETH ALLWEDDOL

BLE MAE'R SWYDDI GWAG?

BIPAB	165.4
BIPBC	541*
BIPCTM	97.9*
BIPCa'rF	155
BIPHDd	408
BIPBA	264
BIPAP	88.1*

*data anghyson

Yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth i fyrddau iechyd, canfu plaid Geidwadol Cymru mai 2,208 oedd y ffigur swyddi gwag ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth. Mae RCN Cymru o'r farn bod y ddau ffigur yn dangynrychiolaeth o'r gyfradd swyddi gwag wirioneddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn methu â chyhoeddi ystadegau cenedlaethol ar gyfer swyddi nyrsio gwag yng Nghymru. **Ar hyn o bryd, Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad yw'n cyhoeddi'r data hyn.**

ARGYMHELLIAD

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi data ar swyddi nyrsys cofrestredig gwag i wella gwaith cynllunio'r gweithlu ar draws bob sector.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

FAINT O ORIAU O ORAMSER Y MAE NYRSYS YN EU GWEITHIO?

Mae nyrsys yn rhoi 34,284 awr ychwanegol o oramser i'r GIG bob wythnos.

Mae hyn yn cyfateb i **914 o nyrsys llawn amser**

Gweithio goramser

Oherwydd y gyfradd swyddi gwag uchel, mae GIG Cymru yn parhau i ddangos dibyniaeth drom ar ewyllys da nyrsys i weithio goramser. Nid oes tâl am yr holl oramser.

Yn Arolwg Cyflogaeth RCN yn 2019, dywedodd 76% o nyrsys eu bod yn gweithio goramser o leiaf unwaith yr wythnos³.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn gweithio rhwng un a phedair awr yn ychwanegol yr wythnos.

Yn fwy diweddar, nododd arolwg yn 2020 bod 30% o aelodau RCN yn teimlo eu bod yn gweithio oriau hwy o'i gymharu â chyn pandemig COVID-19. Mae cynnydd oriau hwy yn peri pryder: mae staff nyrsio eisoes yn gweithio shifftiau hir.

Cyflogir 22,555 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn gan GIG Cymru ar hyn o bryd. Os yw 76% yn gweithio goramser o leiaf unwaith yr wythnos, mae hynny yn cyfateb i 17,142 o nyrsys. Gan dybio bod y nyrsys hyn wedi gweithio dim ond dwy awr yn fwy mewn un wythnos, byddai GIG Cymru yn derbyn 34,284 o oriau ychwanegol o waith yn yr un wythnos honno. Mae hyn yn cyfateb i 914 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn (yn seiliedig ar gontract o 37.5 awr).

³ Coleg Nyrsio Brenhinol. (2019). *Employment survey 2019*. Ar gael yn: <https://www.rcn.org.uk/professional-development/publications/pub-007927>

Mae GIG Cymru, felly, yn dibynnu yn drwm ar barodrwydd nyrsys i weithio goramser. Fodd bynnag, ceir tâl am rywfaint o oramser. Canfu cais Rhyddid Gwybodaeth gan Blaid Geidwadol Cymru bod chwe bwrdd iechyd yng Nghymru wedi gwario £23 miliwn cyfunol ar oramser nyrsio a bydwreigiaeth yn 2020/21. Mae hyn £10 miliwn yn fwy na'r flwyddyn cynt. Mae hefyd yn eithrio gwariant goramser ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Pe bai tâl ar gael am yr holl oramser, gallai gwariant byrddau iechyd ar oramser ddyblu yn rhwydd.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

FAINT MAE BYRDDAU IECHYD YN EI WARIO AR ORAMSER?

Yn 2020/2021, gwariodd chwech o'r saith bwrdd iechyd yn gyfunol dros £23 miliwn ar oramser nyrsio a bydwreigiaeth - cynnydd o £10 miliwn o 2019/2020

Nyrsio Asiantaeth a nyrsio Cronfa

Bydd angen rhyw elfen o nyrsio dros dro yn y GIG bob amser ar gyfer cyfnodau o salwch byrdymor a mamolaeth. "Nyrsio cronfa" yw'r term a roddir i'r system lle gall nyrsys a gyflogir gan y GIG gofrestru gyda "chronfa" y GIG i fod ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol pan fydd ei angen. Mae'r rhan fwyaf o nyrsys yn gweithio rhai oriau i'r gronfa, a bydd rhai yn gweithio i'r gronfa yn unig. Fodd bynnag, nid yw gwaith i'r gronfa bob amser yn cael ei dalu ar radd wirioneddol nyrs (sy'n adlewyrchu ei sgiliau clinigol), gan dalu yn hytrach ar radd is weithiau. Mae hyn yn gwneud gwaith cronfa yn llai deniadol na nyrsio asiantaeth.

O safbwynt y nyrs unigol, mae nyrsio asiantaeth yn ddeniadol iawn. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod gan nyrsys sy'n gweithio i asiantaeth reolaeth uniongyrchol dros yr oriau y maent yn eu gweithio. Yn am, nyrsys yng Nghymru yw'r unig berson neu'r prif berson sy'n ennill cyflog ar eu haelwyd. Hefyd, maent yn aml yn gofalu am blant ac aelodau hŷn o'r teulu hefyd. Mae rheolaeth dros oriau a weithir yn eithriadol o bwysig felly, ac yn angenrheidiol hyd yn oed, i'r grŵp hwn. Mae nyrsys sy'n gweithio yn y GIG, yn enwedig mewn swyddi uwch, yn aml yn dioddef digalondid neu drawma o weithio mewn amodau is-optimaidd neu beryglus y maent yn teimlo yn gyfrifol amdanynt er nad yw'r awdurdod angenrheidiol ganddynt i wneud newidiadau. Gall gweithio i asiantaeth ganiatáu i staff barhau i ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol a gofalu am gleifion gyda boddhad heb y baich hwn.

Mae nyrsio asiantaeth yn ddrud i'r GIG, gan fod cost uwch i sicrhau elw asiantaethau. Nid yw'n ddelfrydol ar gyfer gofal cleifion chwaith: bydd nyrsys asiantaeth yn llai cyfarwydd â chynllun, polisïau, ac offer wardiau, ac yn llai abl i ddarparu parhad gofal.

Mae GIG Cymru yn dangos dibyniaeth beryglus a chynyddol ar nyrsio asiantaeth dros ei weithlu ei hun. Os bydd y duedd hon yn parhau, ceir perygl y bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle nad yw

GWYBODAETH ALLWEDDOL

FAINT MAE GIG CYMRU YN EI WARIO AR NYRSIO ASiantAETH?

Yn 2019, gwariwyd £69.04 miliwn ar nyrsio asiantaeth.

Byddai hyn yn talu cyflogau 2,691 o nyrsys newydd gymhwyso

byrddau iechyd yn cyflogi staff yn uniongyrchol i ddarparu gofal cleifion mwyach, ac yn hytrach yn newid i fodel lle mae'r rhan fwyaf o ofal nyrsio, neu'r cwbl, yn cael ei drefnu ar contract allanol. Nid yw hwn yn newid a ddylai ddigwydd heb benderfyniad polisi ymwybodol gan lywodraeth. Canfu cais Rhyddid Gwybodaeth gan Blaid Geidwadol Cymru bod byrddau iechyd wedi gwario cyfanswm o £837 miliwn ar staff asiantaeth rhwng blynyddoedd ariannol 2016 a 2020.

Mae'n hysbys o gais Rhyddid Gwybodaeth blaenorol bod cyfanswm y gwariant ar nyrsio asiantaeth wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall o £52.4 miliwn yn 2017, i £59.1 miliwn yn 2018, i £69.04 miliwn yn 2019.⁴ Nid oes unrhyw ddata cyhoeddus ar wariant *nyrsio* asiantaeth ar gyfer 2020 na 2021. O ystyried, fodd bynnag, bod *cyfanswm* gwariant asiantaeth wedi neidio o £188.1 miliwn yn 2019/2020 i £219.3 miliwn yn 2020/2021,⁵ nid yw'n afrealistig disgwyl bod gwariant ar nyrsio asiantaeth wedi cynyddol yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Mae hyn yn tynnu sylw at effaith pandemig COVID-19 ac yn dangos y pwysau a oedd ar y GIG a'i weithlu. Gweler Adran 4 am ragor o wybodaeth am effaith COVID-19.

Os yw GIG Cymru yn mynd i gadw ei staff nyrsio ei hun, mae angen iddo foderneiddio ei weithdrefnau cyflogaeth i roi mwy o reolaeth i nyrsys dros bryd maent yn gweithio. Yn hytrach na'i gwneud yn haws i'w nyrsys aros, mae GIG Cymru yn ceisio atal nyrsys rhag gadael trwy wrthod, er enghraifft, cyflogi nyrsys asiantaeth a oedd yn gweithio i'r bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd yn flaenorol. Mae hyn yn creu'r sefyllfa ryfedd o nyrsys asiantaeth yn teithio o Lundain neu Manceinion i lenwi swyddi gwag yng Nghaerdydd neu Ysbyty Gwynedd.

Cadw Nyrsys yn y GIG

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod angen mwy o staff nyrsio yng Nghymru i ddarparu gofal cleifion. Er bod cynyddu comisiynu cyn-gofrestru yn bwysig, ni all wella'r prinder nyrsys ar ei ben ei hun. Mae angen i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a chyflogwyr annog nyrsys i barhau i weithio yn y sector. Bydd hyn o fudd i ofal cleifion trwy alluogi'r gweithlu i dyfu o ran niferoedd. Bydd hefyd yn caniatáu i nyrsys sydd newydd gymhwyso i ddysgu gan unigolion hynod gymwys, hynod fedrus, profiadol ym mhob lleoliad.

⁴ Smith, M. (2020, Feb 25). *The staggering amount spent on agency nurses to keep the Welsh NHS running* - Wales Online. *WalesOnline*. Ar gael yn: <https://www.walesonline.co.uk/news/health/agency-nurses-wales-nhs-health-17777702>

⁵ Lewis, A. (2020, 2 Awst). *The huge amount of money spent on agency staff in Wales to fill gaps in the NHS workforce*. *WalesOnline*. Ar gael yn: <https://www.walesonline.co.uk/news/health/huge-amount-money-spent-agency-21199623>

Felly, sut gallwn ni annog nyrsys i barhau i nyrsio?

Yn ystod haf 2021, cynigiodd Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 3% i'r rhai ar delerau amodau yr Agenda ar gyfer Newid. Mae nyrsys yn ymuno â gweithlu'r GIG ar Fand 5 yr Agenda ar gyfer Newid gan ennill £25,655, yn codi i £31,533 ar ôl 4 mlynedd. Mae 46% o nyrsys y GIG ar Fand 5. Pan ymgynghorodd RCN Cymru a'i aelodau ar y dyfarniad cyflog hwn, dywedodd 93.9% ei fod yn annerbyniol. Mae hyn yn dangos cryfder y teimladau ymhlith aelodau GIG RCN Cymru, sy'n hynod siomedig â'r dyfarniad o 3%.

Nid yw cyflog nyrsio wedi cadw i fyny â chwyddiant dros y degawd diwethaf. Bydd cyfraniadau yswiriant gwladol yn cynyddu 1.25% o fis Ebrill 2022, ac mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dynodi y bydd chwyddiant yn 4% ar gyfartaledd yn 2022.⁶ I bob pwrpas, mae hyn yn troi'r dyfarniad cyflog o 3% yn *doriad cyflog i nyrsys*.

Roedd arolwg aelodau RCN Cymru yn 2020 yn cynnwys y cwestiwn, "sut ydych chi'n credu y gellid annog nyrsys a staff nyrsio yn y GIG i barhau i nyrsio?" Dywedodd bron i 90% o'r ymatebwyr bod cyflogau uwch yn bwysig, a dywedodd 44% mai hwn oedd yr *un peth pwysicaf* y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i gadw staff nyrsio yn gweithio i'r GIG. Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd (a ddewiswyd gan 41%) oedd recriwtio mwy o staff i alluogi gwell gofal a chreu amgylchedd lle ceir llai o bwysau.

Ffactorau eraill sy'n bwysig i aelodau RCN Cymru yw amodau gweithio mwy diogel, cyfleoedd gweithio mwy hyblyg, a mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'n rhaid i strategaeth cadw nyrsys y GIG ystyried:

- Ehangu Adran 25B Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i ddarparu amodau gweithio mwy diogel.
- Symud oddi wrth system amserlennu draddodiadol y GIG a chynnig mwy o hyblygrwydd o ran oriau.
- Cynllunio a Datblygu gwell cyfleoedd gyrfaol, a mynediad at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i'w gyflawni yn ystod oriau gwaith.
- Symleiddio'r dogfennau y mae angen i staff nyrsio eu cwblhau.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac AaGIC ddatblygu strategaeth cadw nyrsys genedlaethol y GIG ar frys i gadw nyrsys yn gweithio yn GIG Cymru.

⁶ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. (2021). *Economic and Fiscal Outlook - October 2021*. Ar gael yn: <https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-october-2021/>

Adran 4 **Faint o nyrsys a staff nyrsio sy'n cael eu cyflogi yn y sector annibynnol?**

Mae nyrsys a staff nyrsio a gyflogir yn y sectorau annibynnol a gofal cymdeithasol yn gweithio i amrywiaeth eang o gyflogwyr nad ydynt yn rhai GIG gan gynnwys hosbisau, asiantaethau nyrsio, carchardai, meddygfeydd teulu, ysbytai preifat, elusennau a gwasanaethau cymunedol gwirfoddol.

Mae'n anodd dod o hyd i ddata cynhwysfawr ar gyfanswm y nyrsys sy'n gweithio i gyflogwyr yn y sector hwn gan nad oes un ffynhonnell ddata unigol. Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu data ar grwpiau nyrsio penodol yn y sector annibynnol gan gynnwys nyrsio practis, nid oes nifer nyrsys cyffredinol sy'n hawdd cael gafael arni.

Mae 35,274 o nyrsys wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae 22,550 ohonynt yn gweithio i'r GIG. Mae hynny yn gadael 12,725 o nyrsys cofrestredig yn gweithio mewn mannau eraill. Mae hynny yn gadael amcangyfrif o 10,180 a allai o bosibl fod yn gweithio y tu allan i'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi efallai nad yw elfen bellach o'r rhain yn ymarfer.

Nyrsio practis

Cyflogir y rhan fwyaf o nyrsys practis a gweithwyr cymorth nyrsio yn uniongyrchol gan feddygon teulu sy'n cael eu his-gontractio gan y byrddau iechyd yng Nghymru i ddarparu'r contract Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol. Cyflogir nifer fach o nyrsys practis a gweithwyr cymorth nyrsio yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

FAINT O NYRSYS SY'N GWEITHIO MEWN MEDDYGFYDD TEULU?

Ym mis Medi 2020, roedd 1,368 o nyrsys cofrestredig yn gweithio mewn meddygfeydd teulu yng Nghymru.

Ym mis Medi 2020, roedd 1,368 o nyrsys cofrestredig yn gweithio mewn meddygfeydd teulu yng Nghymru. I roi hyn yn ei wir oleuni, ceir 1,963 o ymarferwyr cyffredinol.⁷

Mae nyrsys practis yn darparu gofal cleifion uniongyrchol. Maent yn cynorthwyo cleifion i reoli cyflyrau hirdymor fel diabetes ac epilepsi, yn darparu gofal anadlu a brechiadau, ac yn cyflawni profion gwaed. Gall nyrsys practis amrywio o fandiau 5 i 8 a gallant ddod yn Uwch-ymarferwyr Nyrsio.

Mae nyrsys practis yn hanfodol ar gyfer darparu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

⁷ Llywodraeth Cymru. (2020, 30 Medi). *Gweithlu practis cyffredinol: ar 30 Medi 2020* [Cyhoeddiad Ystadegol]. <https://llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-medi-2020>

Mae meddygfeydd teulu yn gweithio mewn clystyrau. Ceir 64 o glystyrau yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n ceisio datblygu gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol. Mae'r feddygfa deulu yn ganolog i'r clwstwr. Mae'n bwysig bod nyrsys practis hefyd yn gweithio ar sail clwstwr i sicrhau cysondeb o ran gofal a chyfathrebu rhwydd rhwng meddygon teulu a nyrsys practis, yn ogystal â gyda'r gweithlu nyrsio ehangach gan gynnwys nyrsys ardal. Mae angen cynnwys nyrsys practis yn y broses o ddylunio a darparu gofal clwstwr.

Nyrsio cartref gofal

Mae darparwyr cartrefi gofal ac aelodau RCN Cymru wedi hysbysu am brinder difrifol o nyrsys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal. Canfu adroddiad blynyddol gan Gofal Cymdeithasol Cymru mai 1,438 oedd nifer y staff nyrsio cofrestredig a gyflogwyd gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yn 2019. Dim ond 3% o'r holl staff a gyflogir gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yng Nghymru yw hyn⁸. Roedd canran y staff nyrsio a gyflogwyd yn amrywio o 0% ym Mhowys i 4% yng Ngwynedd, Wrecsam, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, a Chasnewydd.

Er gwaethaf y ffaith fod canran gyffredinol y staff nyrsio cofrestredig yn dal i fod yn 3% o gyfanswm y gweithlu a gyflogir gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd, mae'r cyfanswm wedi gostwng o 1,545 yn 2018, i 1,438. Mae'r gostyngiad hwn yn peri pryder o ystyried yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu. Os nad oes digon o nyrsys cofrestredig yn y gweithlu cartrefi gofal, yna bydd ansawdd y gofal nyrsio ddarperir yn gostwng gan arwain at iechyd gwael a disgwyliad oes is i bobl hyn y mae'r sector yn gofalu amdanynt.

Bydd yr heriau a wynebir yn y sector cartrefi gofal yn lledaenu wedyn i'r GIG ei hun wrth i achosion o oedi cyn rhyddhau a derbyniadau ailadroddus gynyddu.

Mae cartrefi gofal yn cynorthwyo rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r gweithlu cartrefi gofal yn sicrhau bod yr unigolion hyn yn byw gydag urddas a bod ganddynt fynediad at ofal tosturiol yn eu manau preswyllo. Mae nyrsys cofrestredig mewn cartrefi gofal yn allweddol i'r ddarpariaeth o ofal cymhleth o ansawdd uchel, cefnogi annibyniaeth, lleihau derbyniadau i'r ysbyty, a gwella iechyd a llesiant.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

FAINT O NYRSYS SY'N GWEITHIO MEWN CARTREFI GOFAL?

Yn 2019, dim ond 1,438 o staff nyrsio cofrestredig oedd yn cael eu cyflogi gan Ddarparwyr Gofal a Gomisiynwyd

⁸ Gofal Cymdeithasol Cymru. (2021). *Proffil Gweithlu 2019: Gwasanaethau Darparwyr Gofal a Gomisiynwyd*. Ar gael yn: <https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/adroddiadaur-gweithlu>

Mae presenoldeb nyrs gofrestredig mewn cartref gofal, i breswylwyr ag anghenion nyrsio, yn hanfodol ar gyfer monitro ac asesu iechyd a llesiant y preswylwyr hynny yn barhaus. Hefyd, nyrsys cofrestredig yw craidd y broses asesu ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG, pecyn cyflawn o ofal parhaus sy'n cael ei drefnu a'i ariannu gan y GIG yn unig drwy fyrddau iechyd, lle mae angen sylfaenol unigol wedi cael ei asesu fel un sy'n seiliedig ar iechyd. Fel ymarferwyr annibynnol, defnyddir eu sgiliau clinigol i adnabod a rhagweld problemau, i gymryd camau pan fo cyflwr rhywun yn gwaethygu, ac i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae nyrsys cofrestredig yn allweddol i reoli salwch aciwt, i wneud penderfyniadau am reoli cyflyrau hirdymor, ac i ddarparu ymyriadau cymhleth mewn sefyllfaoedd brys neu argyfwng. Maent hefyd yn helpu i gynorthwyo trosglwyddiad di-dor o'r ysbyty yn ôl i'r cartref gofal.

Mae nyrsys cofrestredig mewn cartrefi gofal yn cydgysylltu gofal y preswylwyr i sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio i wasanaethau arbenigol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, meddygon teulu, a gwasanaethau cymdeithasol fel sy'n ofynnol. Maent hefyd yn allweddol i sicrhau bod prosesau diogelu yn cael eu dilyn i sicrhau bod eu preswylwyr, y mae rhai ohonynt yn agored iawn i niwed, yn ddiogel.

Mae nyrsys cofrestredig yn hybu annibyniaeth preswylwyr trwy ofal adsefydlu rhagweithiol, gan hybu iechyd preswylwyr, darparu gofal lliniarol a diwedd oes o ansawdd uchel, a chwarae rhan allweddol mewn eiriolaeth ar ran preswylwyr a theuluoedd.

Nid yw swyddogaeth nyrsys mewn cartrefi gofal yn dod i ben gydag anghenion clinigol y preswilydd. Yn hytrach, mae'r gweithlu nyrsio yn aml yn cael ei adael i reoli a goresgyn heriau anghlinigol, yn enwedig yn y nos. Er enghraifft, gellid gadael nyrs i oruchwylio ymarfer tân, gwaith cynnal a chadw'r adeilad a rheoli methiannau offer. Mae angen cyfrifoldeb, dawn ac arweinyddiaeth i wneud hyn yn effeithiol.

Mae'r swyddogaeth nyrsio mewn cartrefi gofal yn bwysig ac ni ddylid ei gwthio i'r cyrion wrth ddatblygu polisi. Mae polisi presennol wedi methu â chydabod neu fynegi manteision grymus y swyddogaeth hon. Mae hyn wedi ychwanegu at y pwysau a wynebir gan nyrsys mewn cartrefi gofal ac wedi atal myfyrwyr nyrsio rhag mynd ar drywydd gyrfa yn y maes.

Nyrsio rhyngwladol a mudo

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd 1 o bob 4 o bobl yng Nghymru yn hŷn na 65 oed erbyn 2038. Rhagwelir hefyd y bydd y boblogaeth sy’n hŷn na 75 oed yng Nghymru yn 13.7% yn yr un flwyddyn.⁹ Mae gan Gymru boblogaeth sy’n heneiddio, ac er gwaethaf ymdrechion i recriwtio nyrsys yn lleol ac yn genedlaethol, efallai na fydd digono bobl o oedran gweithio yng Nghymru i ddarparu gofal i’r rhai sydd angen gofal cymdeithasol yn y dyfodol agos. Mae Cymru yn ddibynnol ar recriwtio rhyngwladol i sicrhau’r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol.

Canfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mai nyrsys cofrestredig yw’r grŵp staff yn sectorau annibynnol a gofal cymdeithasol Cymru sydd â’r gyfran uchaf o weithwyr UE nad ydynt o’r DU (tua 17.7%).¹⁰ Canfu’r un gwaith ymchwil hefyd mai nyrsio sy’n wynebu’r heriau cadw mwyaf difrifol o’r holl grwpiau galwedigaethol yn y sectorau hyn.

Ym mis Mawrth 2020, llofnododd RCN Cymru bapur safbwynt Llywodraeth Cymru ar fudo.¹¹ Mae’r papur yn cyflwyno safbwynt unedig Cymru ar nifer o faterion mudo allweddol, gan gynnwys yr angen i gydnabod gwahaniaethau demograffig ar draws y DU, gofynion Cymru ar gyfer system fewnfudo newydd, a’r trothwy cyflog.

Mae anghenion y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn wahanol ar draws pedair gwlad y DU. Gan fod y system fewnfudo newydd wedi dod yn weithredol ym mis Ionawr 2021, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei heffeithiau ar recriwtio rhyngwladol a mudo.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

Nyrsys cofrestredig yw’r grŵp staff ym maes gofal cymdeithasol â’r gyfran uchaf o weithwyr UE nad ydynt o’r DU – tua 17.7%

⁹ Llywodraeth Cymru (2020). *Cymru O Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy’n Heneiddio* [Dogfen Ymgynghori]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/dogfen-ymgynggori_0.pdf

¹⁰ Hutcheson, L; Ormston, R (2019). Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 14/2019. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/effaith-brexit-ar-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-gofal-plant.pdf>

¹¹ Llywodraeth Cymru (2020). *Papur safbwynt Cymru ar fudo*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/papur-safbwynt-cymru-ar-fudo.pdf>.

Cadw staff nyrsio mewn cartrefi gofal

Mae'r angen am staff nyrsio mewn cartrefi gofal yn eglur, ond yn anffodus mae llawer yn dewis gadael. Mae angen i Lywodraeth Cymru a chyflogwyr sector annibynnol annog nyrsys i barhau i weithio mewn cartrefi gofal. Bydd hyn o fudd i ofal cleifion trwy alluogi'r gweithlu i dyfu o ran niferoedd. Bydd hefyd yn galluogi nyrsys sydd newydd gymhwyso i ddysgu gan unigolion hynod gymwys, hynod fedrus, profiadol ym mhob lleoliad.

Roedd arolwg aelodau RCN Cymru yn 2020 yn cynnwys cwestiwn am yr hyn sydd angen newid i nyrsys ddewis aros yn y sector cartrefi gofal. Rhestrwyd cyflogau fel ffactor pwysig gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr, a dywedodd 38% o ymatebwyr mai hon oedd y pwysicaf. Cydnabyddiaeth a pharch i'r swyddogaeth nyrsio mewn cartrefi gofal oedd yr ateb mwyaf poblogaidd.

Ceir heriau hirhoedlog o ran cyflogau isel ac annheg, telerau cyflogaeth ac amodau gweithio anfoddhaol yn y sector gofal cymdeithasol yn gyffredinol, ac yn enwedig mewn cartrefi gofal. Nid oes unrhyw gysondeb rhwng cartrefi gofal, o fewn y sector gofal cymdeithasol yn ei gyfarwydd, na rhwng darparwyr a'r GIG. Mae hyn yn golygu y gall cyflogau ar gyfer swyddi cyfatebol amrywiol yn sylweddol o gyflogwr i gyflogwr.

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi galw yn gyson am gyflogau teg, telerau cyflogaeth da ac amodau gweithio diogel ym maes gofal cymdeithasol, sy'n gystadleuol â'r GIG. Dylid seilio strwythurau cyflog ar y Cyflog Byw Gwirioneddol. Dylid talu staff yn briodol am yr holl oriau y maent yn eu gweithio - gan gynnwys talu cyfraddau goramser ar gyfer oriau dros 37.5 awr yr wythnos e.e. shifftiau yn gor-redeg.

Mae presenoldeb nyrs gofrestredig mewn cartref gofal, ar gyfer preswylwyr ag anghenion nyrsio, yn hanfodol ar gyfer monitro ac asesu iechyd a llesiant y preswylwyr hynny yn barhaus. Efallai y bydd nyrs mewn cartref gofal yn gofalu am unigolyn sy'n gwella ar ôl llawdriniaeth ar ei glun ac arhosiad diweddar yn yr ysbyty sy'n eiddil ac yn byw gyda dementia, diabetes ac asthma. Bydd yr un nyrs hefyd yn gofalu am sawl person arall â chyflyrau hirdymor.

Mae'r lefel uchel o gydafiachedd ymhlith y boblogaeth hyn a chynnydd i nifer y bobl sydd angen gofal wedi newid y swyddogaeth o nyrsio mewn cartrefi gofal. Mae swyddogaeth nyrs cartref gofal yn haeddu parch a chydabyddiaeth am y swydd hynod fedrus a heriol yw hi.

Adran 5 COVID-19 a'r gweithlu nyrsio

Mae staff nyrsio wedi ymateb i bandemig COVID-19 gyda dewrder, arloesedd, ac ymroddiad i ddarparu'r ansawdd uchaf o ofal i gleifion ym mhob lleoliad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae nyrsio bob amser yn hanfodol i'r ddarpariaeth o ofal cleifion diogel ac o ansawdd uchel. Mae COVID-19 wedi amlygu hyn, ond mae hefyd wedi amlygu natur agored i niwed gwasanaethau sy'n dibynnu ar weithlu sydd eisoes wedi ei ymestyn, a'r angen i flaenoriaethu iechyd a llesiant meddwl y gweithlu.

Ysbryd

Canfu arolwg¹² o 2,011 o aelodau RCN Cymru ym mis Mehefin 2020 bod lefel y straen ymhlith yr ymatebwyr wedi cynyddu, tra bod lefel ysbryd staff wedi gostwng. Adroddodd dri chwarter yr aelodau a arolygwyd (76%) gynnydd i lefelau straen, a dywedodd dros hanner (58%) bod ysbryd staff wedi gwaethygu. Yn arolwg aelodau RCN Cymru yn 2020, gofynnwyd i'r aelodau sut roeddent wedi teimlo am aros yn y proffesiwn nyrsio neu ei adael ar ddiwedd y flwyddyn cynt, a sut roeddent yn disgwyl teimlo erbyn diwedd 2020. Er bod 27% wedi bod naill ai'n meddwl am neu'n meddwl yn gryf am adael y proffesiwn ar ddiwedd 2019, dywedodd 36.7% eu bod yn disgwyl y byddent yn ystyried gadael neu'n ei ystyried yn gryf erbyn diwedd 2020. Mae'r cynnydd sydyn hwn yn peri pryder ac yn dangos effaith sylweddol COVID-19 a phwysau cronig ar y gweithlu.

Canfu'r un arolwg bod dros hanner yr aelodau (52%) yn poeni am eu hiechyd meddwl.

Mae angen i GIG Cymru a chyflogwyr sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi iechyd a llesiant meddwl nyrsys a staff nyrsio. Mae hyn yn cynnwys talu cyflog teg am natur gymhleth ac anodd eu gwaith ynghyd â mesurau fel galluogi staff i gymryd seibiannau yn y gwaith, cefnogi eu ceisiadau am wyliau blynyddol a chynnig mwy o hyblygrwydd o ran patrymau gweithio i atal gweithio shifftiau hir neu oriau gormodol. Mae'r rhain i gyd yn arwain at fwy o foddhad yn y swydd a gwell cydbwysedd gwaith/bywyd.

FFAITH ALLWEDDOL

Yn 2020, dywedodd 36.7% o aelodau RCN eu bod yn disgwyl y byddent yn ystyried gadael y proffesiwn, neu'n ei ystyried yn gryf, erbyn diwedd y flwyddyn.

¹² Coleg Nyrsio Brenhinol (2020). *Building a Better Future*. Ar gael yn: <https://www.rcn.org.uk/professional-development/publications/rcn-building-a-better-future-covid-pub-009366>

Y rhaglen frechu

Darparwyd y rhaglen frechu gan y gweithlu nyrsio yn bennaf. Boed mewn canolfannau brechu torfol, clinigau galw i mewn, cartrefi gofal, meddygfeydd teulu, neu ysgolion, mae'r gweithlu nyrsio wedi bod yn ganolog i'r rhaglen. Dychwelodd llawer o nyrsys a oedd wedi ymddeol i ymarfer i gynorthwyo cydweithwyr, gan gynnig eu gwasanaethau i'r rhaglen frechu. Fodd bynnag, ceir terfyn i ba mor bell yr aiff ewyllys da. Mae RCN Cymru yn ymwybodol mai dim ond llond llaw o nyrsys a oedd wedi ymddeol ac a ddychwelodd gafodd gynnig swyddi parhaol, gan na wnaeth byrddau iechyd wneud ymdrech weithredol i'w cadw. Ymddeolodd y nyrsys hyn eto, a heb fynd at i yn weithredol i gadw eu profiad a'u sgiliau, bydd GIG Cymru yn colli gweddill y nyrsys a ddychwelodd i ymarfer. Bydd hyn yn herio parhad y rhaglen. Yn sgil gostyngiad i nifer y nyrsys daw gostyngiad i gapasiti, gan gyfyngu'r gyfradd frechu bosibl.

Mae'n bwysig bod capasiti i ddarparu'r rhaglenni brechu torfol ar gyfer COVID-19 a ffliw. Os yw'r rhaglenni brechu hyn yn mynd i fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid cydnabod bod angen gweithlu sefydlog.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod capasiti nyrsio yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynllunio'r rhaglen frechu a dylai weithio gydag arweinwyr nyrsio i ddeall anghenion y gweithlu.

ARGYMHELLIAD

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu cynlluniau adfer yn sgil COVID-19 gan gydnabod yr angen am staff nyrsio ychwanegol ar gyfer y rhaglen frechu.

Atal a rheoli heintiau

Mae cyngor nyrsio atal a rheoli heintiau yn hanfodol i sicrhau diogelwch cleifion a gweithwyr gofal iechyd, fel y mae pandemig COVID-19 wedi ei amlygu. Dylid adlewyrchu gwerth ac angenrheidrwydd cyngor nyrsio atal a rheoli heintiau yn yr holl strwythurau a darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, cyflogwyr, ac asiantaethau perthnasol.

Mae cyngor nyrsio atal a rheoli heintiau yn amlochrog, yn amrywiol, ac yn hanfodol ar gyfer systemau diogel o waith a darparu gofal. Mae cyngor a ddarperir gan nyrsys atal a rheoli heintiau yn amrywio yn eang ac yn cynnwys hylendid dwylo, dadansoddi a dihalogi labordy, caffael cyfarpar diogelu

personol yn gynaliadwy, rheoli achosion unigol, atal a rheoli brigiadau, a chynllunio argyfwng a gwyliadwriaeth. Hefyd, mae cyngor atal a rheoli heintiau yn ymestyn i'r amgylchedd adeiledig ei hun i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â systemau aer, dŵr a pheirianneg. Mae'r maes nyrsio arbenigol hwn yn unigryw o ran lled ei ymarfer a'i gyfrifoldeb, gan ei fod yn cwmpasu systemau iechyd a gofal a'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau. Gweler Adran 7 am ragor o wybodaeth am nyrsys atal a rheoli heintiau ymgynghorol.

COVID-19 a staff cartrefi gofal

Mae'r sector cartrefi gofal wedi wynebu heriau y tu hwnt i'r dychymyg. Mae anawsterau cyfathrebu a oedd yn bodoli eisoes rhwng cartrefi gofal, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi cael eu gwaethygu, ac amlygwyd anawsterau o ran recriwtio a chadw. Fodd bynnag, mae'r gweithlu cartrefi gofal wedi parhau i ddarparu gofal i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad i breswylwyr cartrefi gofal.

Yn ystod camau cynnar y pandemig, clywodd RCN Cymru yn anecdotaid bod staff cartrefi gofal yn teimlo wedi'u hynysu oddi wrth weddill y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Tyfodd y bwlch rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn fwyfwy amlwg i'r gweithlu cartrefi gofal. Roedd rheolwyr cartrefi gofal yn aml yn wynebu anawsterau yn cael cyfarwyddyd gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a GCC. Roedd heriau hefyd o ran deall gan bwy ddylai'r cyfarwyddyd ddod. Hefyd, rhoddwyd digonedd o sylw i'r heriau yn cael gafael ar gyfarpar diogelu personol a phecynnau profi COVID-19 yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae RCN Cymru yn ymwybodol bod hyn wedi cael ei ddatrys yn y mwyafrif o achosion, diolch byth.

Yn ystod pandemig COVID-19, nid yw nyrsys yn y sector cartrefi gofal wedi mwynhau'r un telerau ac amodau â'r rhai yn y GIG, sy'n golygu bod rhai o dan anfantais o ran mynediad at dâl salwch. Ar 30 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol,¹³ gan ganiatáu i'r cyflogwr hawlio hyd at dâl llawn i'w staff sy'n datblygu salwch. Fodd bynnag, cafodd rhai cyflogwyr a staff nyrsio drafferth yn cael mynediad at hwn. Os hoffech ddarllen mwy am nyrsio cartrefi gofal, gweler adroddiad 2021 RCN Cymru, Nyrsio mewn Cartref Gofal.

¹³ Llywodraeth Cymru (2020, 30 Hydref). *Cyflwyno dau gynllun yng Nghymru i helpu pobl i hunanyysu* [Datganiad i'r wasg]. <https://llyw.cymru/cyflwyno-dau-gynllun-yng-nghymru-i-helpu-pobl-i-hunanyysu>.

Adran 6 Addysg nyrsio cyn-gofrestru

Mae myfyrwyr nyrsio yn treulio tair blynedd yn cyflawni gradd lawn mewn nyrsio, ac mae pob blwyddyn yn cynnwys 42 o wythnosau gwaith – sy'n sylweddol hwy na blwyddyn academiaidd nodweddiadol. Mae cyrsiau rhan-amser a byrdymor hefyd yn bodoli ar gyfer unigolion â chymwysterau neu brofiad perthnasol, fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Mae myfyrwyr nyrsio yn treulio 50% o'u hamser mewn lleoliadau ymarferol yn GIG Cymru neu mewn mannau eraill. Comisiynir sefydliadau addysg uwch gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r addysg hon.

FFAITH ALLWEDDOL


Canfu gwaith ymchwil a wnaed ar draws naw gwlad Ewropeaidd bod gweithlu nyrsio sydd wedi'i addysgu yn well yn lleihau marwolaethau diangen. Mae bob cynnydd o 10% i nifer y nyrsys sydd wedi'u haddysgu i lefel gradd baglor mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% i farwolaeth cleifion.

Ceir pedwar maes addysg nyrsio cyn-gofrestru: nyrsio oedolion, nyrsio iechyd meddwl, nyrsio plant a nyrsio anabledd dysgu.

Canfu gwaith ymchwil a wnaed ar draws naw gwlad Ewropeaidd bod gweithlu nyrsio sydd wedi'i addysgu yn well yn lleihau marwolaethau diangen. Mae bob cynnydd o 10% i nifer y nyrsys sydd wedi'u haddysgu i lefel gradd baglor mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% i farwolaeth cleifion.¹⁴

Fe wnaeth y Llywodraeth Cymru flaenorol gynyddu nyrsio cyn-gofrestru oedolion ac rydym yn gobeithio gweld Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi ym mhob gradd nyrsio cyn-gofrestru. Mae Ffigur 2 yn dangos yn eglur y diffyg buddsoddiad mewn nyrsio anabledd dysgu.

Ffigur 2 Addysg nyrsio cyn-gofrestru fesul maes (Llywodraeth Cymru)



¹⁴ Rafferty, A.M. et al (2014). Nurse staffing and education and hospital mortality in nine European countries: a retrospective observational study. *The Lancet*, 383(9931), tud.1824-1830. DOI: [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(13\)62631-8](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(13)62631-8)

Sut mae addysg cyn-gofrestru yn cael ei chomisiynu?

Comisiynir addysg nyrsio gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar argymhellion gan AaGIC. Comisiynir addysg nyrsio yn flynyddol ac fe'i cyhoeddir trwy ddatganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru neu AaGIC tua mis Medi.

Ar hyn o bryd, penderfynir ar gyllid ar gyfer addysg a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar argymhellion preifat gan AaGIC. Caiff y rhain eu datgan yn gyhoeddus wedyn gan Lywodraeth Cymru mewn datganiad i'r wasg blynyddol. Ceir diffyg tryloywder yn arwain at y cyhoeddiad ac yn aml nid yw sefydliadau iechyd yn ymwybodol o'r ffigurau cyn eu cyhoeddi. Dylai'r broses comisiynu addysg fod yn dryloyw a chaniatáu i gyrff proffesiynol, sefydliadau addysg uwch a chynrychiolwyr cleifion gyfrannu eu harbenigedd a herio'r rhesymeg yn adeiladol. Byddai sicrhau proses dryloyw i randdeiliaid gyfrannu tystiolaeth yn cynyddu hyder yn y broses ac yn cynyddu ansawdd a chadernid y canlyniadau a'u perthynas ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

ARGYMHELLIAD

Mae'n rhaid i AaGIC sicrhau bod y broses gomisiynu ar gyfer addysg nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru yn dryloyw ac yn cymryd tystiolaeth ystyrlon gan randdeiliaid i sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y niferoedd a'r sgiliau a gomisiynir.

Adran 7 **Addysg ôl-gofrestru a chamu ymlaen mewn gyrfa**

Ar ôl i nyrsys gwblhau eu gradd nyrsio cyn cofrestru, mae llawer yn dymuno arbenigo a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Bydd hyn yn gofyn am addysg ac ymarfer yn arwain at gymhwyster neu radd ôl-raddedig cydnabyddedig.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu addysg nyrsio ôl-gofrestru. O ran addysg nyrsio cyn cofrestru, mae'n gwneud hyn yn seiliedig ar argymhellion preifat gan AaGIC.

Rydym yn cyflwyno isod bum enghraifft o addysg nyrsio ôl-gofrestru, nad yw Llywodraeth Cymru wedi manteisio i'r eithaf ar eu potensial eto.

Uwch-ymarferwyr nyrsio

Lefel yn hytrach na math o ymarfer yw uwch-ymarfer. Mae uwch-ymarferwyr nyrsio wedi'u haddysgu i lefel meistyr mewn ymarfer clinigol ac aseswyd bod eu cymhwysedd, eu gwybodaeth glinigol arbenigol a'u sgiliau yn bodloni safon eithriadol o uchel.¹⁵

Archwiliodd Williamson et al. (2012) swyddogaeth uwch-ymarferwyr nyrsio ar wardiau. Canfuwyd ganddynt bod uwch-ymarferwyr nyrsio nid yn unig yn lleihau costau'r ddarpariaeth o ofal ond hefyd yn meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ymarfer cymhleth uwch yr oeddent yn eu defnyddio i ddehongli cyfarwyddiadau meddygol i nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill, a chleifion. Roeddent yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol o ran cefnogi a hwyluso gofal holistaidd cleifion a lleihau hyd arhosiad cleifion.¹⁶

Dylai AaGIC ystyried pwysigrwydd uwch-ymarferwyr nyrsio a'r Fframwaith ar gyfer Uwch-ymarfer wrth ystyried comisiynu cyn cofrestru.

Nyrsys arbenigol

Ymarferwyr â chyfres arbenigol o sgiliau, gwybodaeth, ac arbenigedd mewn maes penodol yw nyrsys arbenigol. Maent yn darparu addysg a chymorth i gydweithwyr nyrsio a gofal iechyd eraill.


Mae nyrsys arbenigol yn aml yn darparu cymorth hanfodol i bobl â chyflyrau cronig, gan eu helpu i reoli eu cyflyrau a byw mor annibynnol â phosibl. Mae swyddi nyrsio arbenigol yn aml yn cael eu hariannu yn rhannol neu'n llwyr gan y sector gwirfoddol. Mae natur afreolaidd y cyllid yn cynyddu ansefydlogrwydd gwasanaethau nyrsio arbenigol.

¹⁵ Coleg Nyrsio Brenhinol (2018). *Advanced Level Nursing Practice Section 1: The registered nurse working at an advanced level of practice*. Ar gael yn: <https://www.rcn.org.uk/professional-development/publications/pub-006895>

¹⁶ Williamson, S., Twelvetree, T., Thompson, J., a Beaver, K. (2012). *An ethnographic study exploring the role of ward-based Advanced Nurse Practitioners in an acute medical setting*. *Journal of Advanced Nursing*, 68(7), 1579-1588. <https://doi.org/10.1111/j.1365-2648.2012.05970.x>

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn bryderus nad yw nifer y nyrsys arbenigol yng Nghymru yn hysbys ar y lefel genedlaethol. Efallai na fydd gan ardaloedd daearyddol â'r angen mwyaf nyrs arbenigol o dan y dull heb ei gynllunio presennol. Mae Ffigur 3 yn dangos pam mae'r broses bresennol ar gyfer ariannu ac addysgu nyrsys arbenigol yn anaddas.

Ffigur 3 Y cylch prinder nyrsys arbenigol



I dorri'r cylch, mae angen i GIG Cymru a chyflogwyr ryddhau nyrsys i astudio. Mae'n rhaid i AaGIC gomisiynu addysg nyrsio ôl-gofrestru ac mae'n rhaid i brifysgolion ail-sefydlu cyrsiau nyrsio uwch arbenigol.


Nyrsys ymgynghorol

Mae nyrsys ymgynghorol yn swyddi arbennig o uchel. Mae eu swyddogaeth yn cynnwys addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth glinigol. Yn 2005, fe wnaeth Proffesiynau Iechyd Cymru asesu'r angen am nyrsys ymgynghorol gan benderfynu bod angen 55 o swyddi nyrsys ymgynghorol ledled Cymru. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn croesawu'r cynnydd i nifer y nyrsys ymgynghorol yn y blynyddoedd diwethaf, a ddangosir yn ffigur 4. Un mlynedd ar bymtheg yn ddiweddarach, fodd bynnag, mae'r niferoedd yn dal i fod yn 19 o nyrsys ymgynghorol yn brin o argymhelliad Proffesiynau Iechyd Cymru¹⁷.

Yn destun pryder, er gwaethaf y cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfanswm y nyrsys ymgynghorol wedi gostwng yn 2021. Dyma'r tro cyntaf y mae cyfanswm y nyrsys ymgynghorol wedi gostwng ers 2014.

¹⁷ StatsCymru (2021). *Staff nyrsio, bydweigiaeth ac ymwelwyr iechyd, yn ôl gradd a maes gwaith*. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Staff/Non-Medical-Staff/nursingmidwiferyandhealthvisitingstaff-by-grade-areaofwork-year>

Ffigur 4 **Nyrsys ymgynghorol (anabledd dysgu) a nyrsys ymgynghorol (cyfanswm) yng Nghymru, Cyfwerth ag Amser Llawn, 2011-2021 (StatsCymru)**



Mae gwybodaeth StatsCymru am y gweithlu nyrsio yn mynd yn ôl i 2009. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fu unrhyw nyrsys ymgynghorol newyddenedigol na nyrsys ymgynghorol ysgol o gwbl. Mae'n peri pryder pellach bod nifer y nyrsys ysgol cofrestredig wedi gostwng o 146.8 y mis Medi 2019 i 96 ym mis Medi 2020.

Mae nyrsys ymgynghorol anabledd dysgu wedi cael eu gwerthfawrogi yn annigonol yn gyson hefyd. Mewn 11 mlynedd, nid yw nifer y nyrsys ymgynghorol anabledd dysgu erioed wedi codi uwchben 2. Mae wedi aros ar 1 ers 2016. Mae angen dybryd i gynyddu nifer y nyrsys ymgynghorol anabledd dysgu.

Byddai buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol anabledd dysgu yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i ddarparu gwybodaeth arbenigol. Byddai hefyd yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i addysgu a chynnig llwybr gyrfaol i'r genhedlaeth nesaf o nyrsys anabledd dysgu, ac i wella gwybodaeth y gweithlu cyffredinol a chynhyrchu gwaith ymchwil arloesol.

Mae buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol anabledd dysgu yn gyfystyr â buddsoddi yn y system gyfan ac ymwreiddio pwysigrwydd priodol unigolion ag anableddau dysgu yn ganolog i iechyd a gofal cymdeithasol.

Nyrsys atal a rheoli heintiau


Mae nyrsys ymgynghorol atal a rheoli heintiau ar frig cyngor ac ymarfer atal a rheoli heintiau. Ac eto mae'r pandemig wedi amlygu nad oes digon o nyrsys ymgynghorol atal a rheoli heintiau yn cael eu cyflogi gan GIG Cymru. Byddai buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol atal a rheoli heintiau yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar draws systemau. Byddai hefyd yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i addysgu'r genhedlaeth nesaf o nyrsys atal a rheoli heintiau. Byddai'r swyddi hyn yn hwyluso'r broses o rannu arbenigedd ar lefel uwch ar draws ffiniau cenedlaethol, gan ddyrchafu statws nyrsio atal a rheoli heintiau a chyfraniad Cymru ato.

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd gyflogi nyrs ymgynghorol atal a rheoli heintiau a chynnwys cynllunio olyniaeth yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol atal a rheoli heintiau yn gyfystyr â buddsoddi yn y system gyfan a sicrhau yn briodol bod atal a rheoli heintiau yn ganolog i iechyd a gofal cymdeithasol. Cyhoeddodd RCN Cymru bapur ar nyrsio atal a rheoli heintiau yn ddiweddar sydd ar gael ar ein gwefan TâlTegArGyferNyrsio.

Nyrsys Ardal

Ceir prinder cenedlaethol o nyrsys ardal, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau i ddatrys hyn. Arweinir timau nyrsio cymunedol gan nyrsys ardal neu nyrsys sy'n gweithio tuag at gymhwyster nyrsio cymunedol ôl-gofrestru. Mae nyrs ardal yn deitl a roddir i'r rhai â Chymhwyster Ymarfer Arbenigol, sy'n gymhwyster y gellir ei gofnodi gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r cymhwyster yn cydnabod lefel uchel o ddawn, gwybodaeth ac ymarfer. Nyrsys ardal yw brif profiadol tîm nyrsio cymunedol, gan ddarparu arweinyddiaeth i'r nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Ffigur 5 Nyrsys Ardal Cyfwerth ag Amser Llawn, Lleoedd Modiwl Nyrsys Ardal, a Lleoedd ar Gyrsiau Nyrsys Ardal (StatsCymru, AaGIC)



Pam mae'r cynnydd ymddangosiadol i niferoedd nyrsio ardal ar ôl 2016 yn cael ei ddangos gyda llinell ddotiau yn ffigur 5?

Yn syml iawn, oherwydd nad yw'r wybodaeth hon yn ddibynadwy. Mae byrddau iechyd wedi hysbysu StatsCymru eu bod wedi cam-godio nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn y gymuned fel "nyrsys ardal". Rhwng 2015 a 2016, cafwyd gostyngiad mawr i nifer y nyrsys a godiwyd fel nyrsys ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yna, ail-godiwyd y bwrdd iechyd nifer o nyrsys fel "nyrsys ardal" y flwyddyn ganlynol.¹⁸

Mae adroddiad sicrhau ansawdd StatsCymru yn nodi bod "gwelliannau i'r Cofnod Staff Electronig yn golygu ei bod bellach yn bosibl gweld pa rai o'r nyrsys ardal hynny sydd â'r cymhwyster perthnasol (SP:DN)". Er bod y gallu ar gael i nodi nyrsys ardal, mae'n dal i fod yn aneglur ai dim ond y rhai â'r cymhwyster perthnasol sy'n cael eu codio fel nyrsys ardal neu a yw nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn y gymuned yn parhau i gael eu cam-godio.

Ar hyn o bryd, mae'n amhosibl i Lywodraeth Cymru gomisiynu nyrsys ardal yn effeithiol gan fod y data wedi'u chwyddo ac nid ydynt yn darparu gwybodaeth gywir am nifer y nyrsys ardal yng Nghymru.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo AaGIC i lunio strategaeth i gomisiynu a datblygu nyrsio ôl-gofrestru i sicrhau bod gan Gymru y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ofalu am y cyhoedd.

ARGYMHELLIAD

Dylai Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) lansio rhaglen genedlaethol i godi proffil nyrsio mewn cartrefi gofal a chysoni telerau ac amodau cyflogaeth rhwng y sectorau iechyd a gofal i sicrhau bod gweithlu ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2021). *Staff directly employed by the NHS: quality report* [Adroddiad ansawdd]. <https://llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-adroddiad-ansawdd-html>